**Atal yr Adain Dde Eithafol - eich cynlluniau**

Annwyl Arweinydd Llafur Cymru, Eluned Morgan AS,

Rwy'n ysgrifennu ar ran grŵp polisi Melin Drafod er mwyn gofyn am eich cynlluniau i atal twf yr adain dde eithafol yn ein gwlad.

Mae cynnydd yn ideoleg a phleidiau adain dde eithafol i'w weld o amgylch y byd. Mewn nifer o wledydd yn Ewrop a thu hwnt, nid oes amheuaeth bod democratiaeth fel yr ydym yn ei hadnabod hi dan fygythiad yn fwy nag ers cenedlaethau. Mae angen i'n pleidiau gwleidyddol a'n cymdeithas sifil sefyll i fyny i wynebu'r bygythiad enfawr hwn.

Bydd rhai yn dadlau bod yr hyn sy'n digwydd yma yng Nghymru yn amherthnasol, ond nid ydym yn cytuno. Mae pob cam, boed yn fach neu'n fawr, yn gallu gwneud gwahanaeth. Mae pob dim yn werth ei wneud o ystyried difrifoldeb y sefyllfa, ac mae dyletswydd foesol arnoch chi fel arweinydd plaid i ymateb.

Dyma'r amser i ddyfnhau a chryfhau strwythurau democrataidd ein gwlad, rhai mewnol y pleidiau ynghyd â'n cyfundrefnau etholiadol. Ond, yn ogystal, mae'n gwbl hanfodol i fynd i'r afael â'r anghyfartaledd incwm difrifol yng Nghymru a mewn llefydd eraill yn y byd. Dim ond drwy weithio ar bob lefel y llwyddwn ni daclo'r pleidiau adain dde eithafol a'u hideoleg hyll sy'n bygwth cynifer o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Felly, fel arweinydd prif blaid yn ein gwlad, rydym yn gofyn cyfres o gwestiynau i chi am eich cynlluniau i fynd i'r afael â ffactorau sy'n rhan o'r ymateb. Maent i'w gweld isod.

Diolch ymlaen llaw am eich ymatebion i'n cwestiynau ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi i atal twf yr adain dde eithafol.

Yr eiddoch yn gywir,

Talat Chaudhri
Cadeirydd, Melin Drafod

**<u>Cwestiynau</u>**

### 1.Democratiaeth

Pa gynigion sydd gennych i gryfhau a dyfnhau democratiaeth yn y Senedd a thu hwnt?

Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i gryfhau democratiaeth o fewn eich plaid?

### 2.Ail-ddosbarthu Cyfoeth a Chyfleoedd

Sut ydych chi'n cynllunio i ail-ddosbarthu cyfoeth rhwng pobl sy'n ennill y mwyaf i'r rhai ar yr incymau isaf?

Sut ydych chi'n cynllunio i ail-ddosbarthu cyfoeth i gymunedau sy'n dioddef o ddiffyg cyfleoedd a buddsoddiad?

**3.Gwella Perthnasau Hil**

Pa gamau ychwanegol ydych chi'n cynnig i ddileu camwahaniaethu ar sail hil yng Nghymru?

Pa gamau ychwanegol ydych chi'n eu cynllunio i wella cynrychiolaeth pobl o'r mwyafrif byd-eang o fewn eich plaid eich hun?

**4.Croesawu Mewnfudwyr**

A wnewch chi ddatganiad cyhoeddus o'r newydd yn datgan eich bod yn bwriadu croesawu mewnfudwyr i Gymru?

Sut ydych chi'n bwriadu hyrwyddo buddiannau mudwyr, buddion mudo a herio naratif gwrth-fewnfudo'r adain dde eithafol?

Pa gynigion sydd gennych chi i daclo'r camwahaniaethu yn erbyn mewnfudwyr ac i wella'r driniaeth ohonynt?

Mae Cymru yn 'genedl noddfa', sut ydych chi'n bwriadau adeiladu a dyfnhau'r cysyniad?